

# Crynodeb o'r broses ar gyfer Biliau Aelodau

Mehefin 2021

**Y Llywydd yn nodi bwriad i gynnal balot**

Mae Llywydd yn dweud wrth Aelodau a'r cyhoedd yn ehangach ei bod yn bwriadu cynnal balot.



**Cyflwyno Cynnig**

Mae Aelodau'n cyflwyno syniadau ar gyfer y balot.

Rhaid i Aelodau nodi teitl arfaethedig ac amcanion polisi eu Bil fel 'gwybodaeth cyn y balot.' Ni all Bil arfaethedig ymwneud â threthiant.




**Balot**

Mae'r Llywydd yn cynnal balot i ddewis Bil arfaethedig o blith y rhai a gyflwynwyd.

Mae gan enillydd y balot 25 diwrnod gwaith o ddyddiad y balot i drefnu pleidlais (gelwir hwn yn gyflwyno cynnig) yn gofyn am ganiatâd i gyflwyno Bil.

Mae gan Bwyllgor Busnes y Senedd 35 diwrnod gwaith o ddyddiad y balot (heb gynnwys cyfnodau toriad) i drefnu dadl ar gynnig o'r fath.



## Nodiadau

<sup>1</sup> Disgwylir y bydd hyn fel arfer yn cynnwys Aelod yn ymgynghori ar Fil drafft, Llywodraeth Cymru yntrafod â Llywodraeth y DU am effaith bosibl y Bil ar gyfrifoldebau'r DU, a'r Llywydd yn gweld y Bildrafft a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig o leiaf bedair wythnos cyn ei gyflwyno, er mwynbwrw golwg dros ei gymhwysedd deddfwriaethol.